# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.03 - 10.05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/20f4ce0c-31f4-462e-bb48-9d428fc30aba?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Trafod y Sesiwn dystiolaeth o gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2015 - Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Trafododd y Pwyllgor y sesiwn dystiolaeth a chytunodd i:

- glywed tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
- gofyn am sesiwn friffio ymchwil ar y costau posibl i fusnesau petaent yn newid o ddefnyddio pecynnau polystyren i ddewisiadau mwy ecogyfeillgar;
- ysgrifennu at Gyngor Sir Rhydychen yn gofyn am eu barn am y ddeiseb; a
- thynnu sylw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y ddeiseb.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-04-619 LLEOLIAETH O RAN CYNLLUNIO AC IAWNDAL AR GYFER TRYDYDD PARTÏON

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn ei farn ar ymateb y deisebydd; a
- thynnu sylw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y ddeiseb.

### 3.2 P-04-618 Diogelu Gwasanaethau Bancio mewn Cymunedau Hawdd eu Targedu

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ofyn i'r ddeiseb gael ei hystyried fel rhan o waith y grŵp sy'n cael ei sefydlu i edrych ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol; a
- gofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Prif Weinidog.

### 3.3 P-04-626 Israddio Ffordd yr A487 drwy Penparcau, Trefechan a chanol tref Aberystwyth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd eto i ofyn am eu barn ar lythyr y Gweinidog.

### 3.4 P-04-625 Cefnogaeth i Fil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gyfeirio'r ddeiseb yn ffurfiol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w gymryd i ystyriaeth wrth lunio eu hadroddiad cam 1 ar y Bil Lefelau Staffio Nyrsio Diogel (Cymru) a gofyn iddynt ein hysbysu o'r cynnydd a phan fyddant yn cau'r ddeiseb.

### 3.5 P-04-627 Gwell Gwasanaethau Trên i Gymudwyr ar gyfer Trigolion Gogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ei hymateb i sylwadau'r deisebydd, yn enwedig y diffyg gwasanaethau addas i gymudwyr.

### 3.6 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- geisio briff cyfreithiol ar y pwynt a godwyd yn llythyr y Gweinidog lle y dywedodd, 'Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer i ddeddfu ynghylch unrhyw iaith ar wahân i'r Gymraeg.'; ac
- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn ei farn am ymateb y deisebydd.

### 3.7 P-04-620 Ailgyflwyno'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol ar Ffordd Osgoi Aberteifi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog roi sylw dyledus i'r ddeiseb ac i roi gwybod i'r Pwyllgor pan fydd hi wedi dod i benderfyniad ar y gorchymyn traffig arfaethedig; ac
- ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ei farn ar lythyr y Gweinidog.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am linell amser ar welliannau i'r A40.

### 4.2 P-04-525 Ariannu Gwobrau CREST yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

### 4.3P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb gan ei bod yn anodd gweld sut y gall y mater fynd yn ei flaen ymhellach o ganlyniad i delerau ymateb y Gweinidog.

### 4.4P-04-516 I wneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a oes ganddo unrhyw sylwadau ar adroddiad yr Athro Donaldson neu ar ddatganiad y Gweinidog.

### 4.5P-04-523 Diogelu'r Henoed a Phobl sy'n Agored i Niwed mewn Cartrefi Gofal

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Prif Weinidog am y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd yr adolygiad dan arweiniad Dr Margaret Flynn, gan gynnwys a yw Gweinidogion Cymru wedi derbyn unrhyw ganfyddiadau interim, fel yr awgrymwyd yn wreiddiol.

### 4.6P-04-608 Ymchwiliad i'r GIG yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am ei ymateb i sylwadau'r deisebydd.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Blaenraglen Waith

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith.